



Yr Hen Ysgol,  
Brynrefail,  
Caernarfon,  
Gwynedd,  
LL55 3NR  
Ffôn: 0870 9220554  
Ffacs: 01286 685461

At:

Par: Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle: rheoliadau arfaethedig ar gyfer Gweithio o Uchder

Annwyl AS/AC,

Mae Eryri-Bywiol yn cael arian craidd gan Awdurdod Datblygu Cymru er mwyn cefnogi a datblygu'r Sector Awyr Agored yng Ngogledd Orllewin Cymru. Ysgrifennwn atoch er mwyn mynegi ein pryder ynghylch dehongliad y Comisiwn Iechyd a Diogelwch o'r gyfarwydddeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â Gweithio o Uchder ??.

Er bod y rheoliadau'n debygol o gael effaith bositif ar ddiogelwch o fewn y diwydiant adeiladu yn y DG, rydym o'r farn fod y rheoliadau'n gwbl anaddas ar gyfer gwaith a wneir ym maes gweithgareddau hamdden megis Dringo, Mynydda ac Ogofa. Mae'r rheoliadau'n gwbl groes i'r arfer gorau a gaiff ei arddel ar hyn o bryd gan y cyrff llywodraethu cenedlaethol (y Cyngor Mynydda Prydeinig, *Mountain Leader Training UK*, Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur, Cymdeithas Hyfforddwy'r Mynydd, a'r Gymdeithas Ogofa Brydeinig). Unwaith y byddant yn dod i rym ar y 19<sup>eg</sup> o Orffennaf 2004, byddant yn cael effaith hynod negyddol a phellgyrhaeddol ar y diwydiant Gweithgareddau Awyr Agored.

Mae sawl elfen o'r rheoliadau arfaethedig sy'n gwrthdaro â'r arfer gorau cyfredol. Mae'r rheoliadau'n pennu system rhaff dwbl, fel a ddefnyddir ar hyn o bryd yn y diwydiant Mynediad â Rhaffau, ac mae hynny'n wahanol iawn i'r dulliau a ddefnyddir mewn sefyllfaoedd dringo a mynydda modern. Ceir enghreifftiau eraill o ba mor anaddas yw'r rheoliadau megis gwahardd hyfforddwy'r rhag gweithio ar eu pennau eu hunain hyd yn oed pan mai dim ond un cleient neu gr\_p bychan sydd ganddynt gan fod safonau'r diwydiant eisoes yn rheoleiddio cymarebau gweithio diogel, a'r dulliau gwaith arfaethedig ar gyfer ymdrin ag 'arwynebau bregus' mewn amgylchedd mynyddig. Yn syml, ymddengys nad oes gan y Comisiwn Iechyd a Diogelwch unrhyw amgyffred o ba mor wahanol yw amgylcheddau rheoledig ar safleoedd adeiladu, lle gellir codi rheiliau diogelwch ac arwyddion, a'r amgylchedd naturiol ar fynyddoedd ac mewn ogofâu lle mae hyfforddwy'r yn dysgu eu cleientiaid i reoli risg trwy fabwysiadu technegau ac arferion da sydd wedi eu hen sefydlu.

Mae gan y diwydiant Gweithgareddau Awyr Agored safonau caeth iawn ar gyfer cymwysterau a record ardderchog o ran diogelwch sydd wedi datblygu ar sail blynyddoedd lawer o berffeithio technegau ac offer. Pe na byddai hynny'n wir, byddai'n gwbl ddealladwy pam fod y Comisiwn Iechyd a Diogelwch yn gwrthio am newid yr arfer gorau. Fodd bynnag, o

ystyried y safonau ardderchog sy'n amlwg ar draws y diwydiant Gweithgareddau Awyr Agored, mae'n anodd iawn deall pam fod angen am y rheoliadau arfaethedig.

Wedi argyfwng y Traed a'r Genau yn 2001, amlygwyd pa mor bwysig yw'r sector Awyr Agored i'r economi lleol, a thros amser, mae'r agwedd hon ar yr economi wedi parhau i dyfu. Yn ddiweddar, cafodd rhaglen ymchwil o'r enw 'Gwerth y Sector' ei chwblhau ar ein rhan gan Newidiam, cwmni ymgynghori yng Nghaerdydd. Mae'r ymchwil yn asesu gwir werth y Sector Awyr Agored i economi Gogledd Orllewin Cymru. Bydd yr ymchwil hon yn cael ei lansio'n ffurfiol yn y dyfodol agos, ac mae canfyddiadau allweddol yr astudiaeth yn ategu'n gryf mor bwysig yw gwarchod y sector Awyr Agored rhag y rheoliadau anaddas a niweidiol hyn.

Canfu'r astudiaeth fod y Diwydiant Twristiaeth Antur yn ychwanegu mwy na £140 miliwn y flwyddyn at economi Gogledd Orllewin Cymru, gyda £60 miliwn o'r arian hwnnw'n mynd at economi Parc Cenedlaethol Eryri, a bod y Sector Awyr Agored yn creu bron i 6% o'r holl swyddi sy'n bodoli yng Ngwynedd, Môn a Chonwy.

Mae gweithgareddau awyr agored megis dringo, cerdded a mynydda hefyd yn dod â llawer o fanteision cymdeithasol o ran iechyd. Adlewyrchwyd hyn yn y ddogfen 'Dringo'n Uwch' a gynhyrchwyd yn ddiweddar gan Alun Pugh, gweinidog y Cynulliad Cenedlaethol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg.

Bydd y broses ymgynghori ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig yn dod i ben ar yr 2il o Ebrill, ac er gwaethaf llawer o ymdrechion gan dasglu o gynrychiolwyr y sector Awyr Agored, o dan arweiniad MLTUK, i ddylanwadu ar y Comisiwn Iechyd a Diogelwch, ni fu unrhyw newid hyd yma yn ei ddehongliad o'r gyfarwydddeb Ewropeaidd.

Gofynnwn i chi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r mater hwn ac i gefnogi ein hymgyrch i sicrhau bod y rheoliadau hyn yn cael eu cysoni gyda'r arfer gorau a argymhellir gan gyrff llywodraethu cenedlaethol ar hyn o bryd. Awgrymwyd (gan Alastair Burt AS) y bydd dirprwyaeth seneddol o bob rhan o'r DG yn gwneud cyflwyniad i Des Browne, y gweinidog dros Waith a Phensiynau. Byddai o fudd mawr i'n hachos pe byddech gystal ag ymuno â'r ddirprwyaeth hon. Fyswn yn annog arnoch i arwyddo yr *Early Day Motion 789* (NB. I'w weld ewch i <http://edm.ais.co.uk>).

Mae tasglu MLTUK yn llunio ymateb ffurfiol i'r broses ymgynghori; o fod wedi cymryd rhan lawn yn y trafodaethau blaenorol, mae Eryri-Bywiol yn cefnogi'r ymateb hwn. Gobeithiwn y byddwch chi'n mynegi eich cefnogaeth drwy hysbysu'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch eich bod chithau'n cefnogi'r ymateb. (DS. Os hoffech ddarllen copi o'r drafft diweddaraf o'r ymateb, ewch i: [www.mltuk.org](http://www.mltuk.org)).

Edrychwn ymlaen at glywed gennych a byddem yn falch iawn o gwrdd â chi er mwyn trafod ymhellach y mater hollbwysig hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

Pete Bursnall

Rheolwr Prosiect  
23/03/04